# Y Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

## Cofnodion: ELLS(2)-13-06

### Dyddiad y cyfarfod: Dydd Mercher 18 Hydref 2006
### Amser y cyfarfod: 9.00am – 12.30pm
### Lleoliad y cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 2, Y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

#### Aelodau Cynulliad yn Bresennol

| Aelod Cynulliad | Etholaeth |
|---|---|
| Peter Black (Cadeirydd) | Gorllewin De Cymru |
| Christine Chapman | Cwm Cynon |
| Jeff Cuthbert | Caerffili |
| Jane Davidson (Gweinidog) | Pontypridd |
| William Graham | Dwyrain De Cymru |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |
| Owen John Thomas | Canol De Cymru |

#### Swyddogion yn Bresennol

| Enw | Teitl swydd | Rhif yr eitem |
|---|---|---|
| Steve Marshall | Cyfarwyddwr yr Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, Llywodraeth Cynulliad Cymru | 2,3,4&5 |
| John Valentine Williams | Cyfarwyddwr Cymwysterau a Chwricwlwm, Llywodraeth Cynulliad Cymru | 2&3 |
| Dr Linda Badham | Pennaeth Is-adran Cymwysterau a Chwricwlwm14 -19, Llywodraeth Cynulliad Cymru | 2,3,4&5 |

| | | |
|---|---|---|
| Kevin Griffiths | Rheolwr Materion Prif-ffrydio a Thrawsbynciol, Llywodraeth Cynulliad Cymru | 4 |
| Julian Pritchard | Is-adran Cymwysterau a Chwricwlwm 14-19, Llywodraeth Cynulliad Cymru | 5 |
| Judith Nedin | Cynllunio a Chyllido Strategol, Llywodraeth Cynulliad Cymru | 2&3 |

## Eraill yn Bresennol

| **Enw** | **Teitl swydd** | **Rhif yr eitem** |
|---|---|---|
| Keith Davies | Cyd -bwyllgor Addysg Cymru, Tîm Bagloriaeth Cymru | 5 |
| Huw Evans OBE | Pennaeth Coleg Llandrillo | 5 |
| Brian Lightman | Prifathro Ysgol St Cyre | 5 |
| Kaynie McLellan | Cyfarwyddwr, Menter Cymru dros Addysg â Chymorth (WISE) | 6 |
| Mark Barker | Ymgynghorydd Cyflogaeth (WISE) | 6 |
| Christine Evans | Cydlynydd Prosiect Gwaith Ysgolion (WISE) | 6 |
| Ian Dickson | Cyfarwyddwr Cwricwlwm a Chymwysterau, Coleg Glannau Dyfrdwy | 7 |
| Joe Phillips | Rheolwr Cymorth Dysgu, Coleg Glannau Dyfrdwy | 7 |

## Gwasanaeth Pwyllgor

| **Enw** | **Teitl swydd** |
|---|---|
| Steve George | Clerc y Pwyllgor |
| Ruth Hatton | Dirprwy Glerc |

**Eitem 1: Cyflwyno, Ymddiheuriadau, Dirprwyon a Datgan Buddiant**

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor ac aelodau'r cyhoedd.

1.2 Derbyniwyd ymddiheuriad oddi wrth Irene James.

1.3 Datganodd Jeff Cuthbert fuddiant fel cyn-gyflogái Cyd -bwyllgor Addysg Cymru. Datganodd Peter Black fuddiant fel Aelod o Gyngor y Coleg, Prifysgol Abertawe.

1.4 Bydd cofnod gair am air o'r cyfarfod ar gael.

**Eitem 2: Adroddiad y Gweinidog**
**Papur: ELLS(2)-13-06(p.1)**

2.1 Ymatebodd y Gweinidog i gwestiynau'r Aelodau ynghylch ei hadroddiad.

Gweithredu:

- Cytunodd y Gweinidog i ddarparu ystadegau ar gyfer Aelodau'r Pwyllgor am y nifer o ddisgyblion ysgol sy'n ennill cymwysterau TGAU a Safon Uwch/Uwch Gyfrannol yng Nghymru a Lloegr wrth edrych yn ôl. Cytunodd y Gweinidog hefyd i edrych a oedd ystadegau ar gael ar y nifer o fyfyrwyr sydd â'u cartrefi yng Nghymru neu yn Lloegr ond sydd yn astudio yn y wlad arall, ac os felly byddai'n sicrhau bod yr ystadegau perthnasol ar gael i Aelodau'r Pwyllgor.
- Cytunodd y Gweinidog y byddai hi'n rhoi, yn ei hadroddiad nesaf, fwy o wybodaeth am y trefniadau cyffredinol ynghylch amseru ac ymgynghori ar gyfer y cynlluniau arfaethedig i ddiwygio Gorchmynion Pwnc y Cwricwlwm Cenedlaethol.
- Cytunodd y Gweinidog y byddai'n cynnwys canlyniad yr ymgynghoriad yn ei hadroddiad yn y gwanwyn.
- Cytunodd y Gweinidog y byddai hi'n darparu'r wybodaeth ddiweddaraf yn gyson am swyddogaeth y CCET mewn perthynas â gweithgarwch economaidd a'r agenda sgiliau.

**Eitem 3: Rhagolwg ar Is-ddeddfwriaeth**
**Papur: ELLS(2)-13-06(.2)**

3.1 Gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau hysbysu'r Clerc am unrhyw is-ddeddfwriaeth y dymunent graffu arni.

3.2 Cytunodd y Gweinidog y byddai'n parhau i hysbysu'r Pwyllgor am ddeddfwriaeth sydd i gael ei gwneud yn y trydydd Cynulliad ac yn parhau hefyd i nodi ai cadarnhaol neu negyddol fyddai'r cynnig yn ôl pob tebyg.

Gweithredu:

- Cytunodd y Gweinidog i ysgrifennu at y Pwyllgor parthed cwestiwn ar ELL-70-05 ar restr yr is-ddeddfwriaeth, "Rheoliadau Arolygu’r Gwasanaeth Gyrfaoedd a Gwasanaethau Cysylltiedig (Cymru) 2006".

**Eitem 4: Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb**
**Papur: ELLS(2)-13-06(p3)**

4.1 Trafododd y Pwyllgor y papur.

Gweithredu: Y Cadeirydd i ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal yn dilyn trafodaeth.

**Eitem 5: Bagloriaeth Cymru**
**Papur: ELLS(2)-13-06(p4)**

5.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Keith Davies, Tîm Bagloriaeth Cymru Cyd–bwyllgor Addysg Cymru ; Huw Evans OBE, Pennaeth Coleg Llandrillo a Brian Lightman, Prifathro, Ysgol St Cyre.

**Eitem 6: Adolygiad Polisi AAA – Rhan 3 – Casglu Tystiolaeth**
**Papur: ELLS(2)-13-06(p5) (Cyflwyniad PowerPoint)**

6.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Kaynie McLellan, Cyfarwyddwr WISE, Mike Barker, Ymgynghorydd Cyflogaeth, WISE; a Christine Evans, Cydlynydd Prosiect Gwaith Ysgolion, WISE.

**Eitem 7: Adolygiad Polisi AAA – Rhan 3 – Casglu Tystiolaeth**
**(trwy Gyswllt Fideo-gynadledda)**

7.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Ian Dickson, Cyfarwyddwr Cwricwlwm a Chymwysterau, Coleg Glannau Dyfrdwy a Joe Phillips, Rheolwr Cymorth Dysgu, Coleg Glannau Dyfrdwy.

**Papur i’w Nodi: Cofnodion y cyfarfod blaenorol**
**Papur: ELLS(2) -12-06(mins)**

Nododd y Pwyllgor y cofnodion.

**Papur i’w Nodi: Datblygu Fframwaith Cymwysterau Ewropeaidd(EQF) a’r Berthynas â Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (CQFW)**
**Papur: ELLS(2)-13-06(p6)**

Nododd y Pwyllgor y papur.